nesta
cychwyn tecach

Creu cychwyn tecach

Dadansoddiad o ddarpariaeth a photensial gofal plant yng Nghymru



Nesta ydyn ni. Nesta yw asiantaeth arloesedd y Deyrnas Unedig er lles cymdeithasol.

Rydym yn dylunio, yn profi ac yn addasu datrysiadau i broblemau mwyaf cymdeithas. Ein tair cenhadaeth yw rhoi dechrau teg i bob plentyn, helpu pobl i fyw bywydau iach, a chreu dyfodol cynaliadwy lle mae'r economi'n gweithio i bobl ac i'r blaned.

Ers dros 20 mlynedd, rydym wedi gweithio i gefnogi, annog ac ysbrydoliaeth arloesedd.

Rydym yn gweithio mewn tair rôl: fel partner arloesi sy'n gweithio gyda sefydliadau rheng flaen i ddylunio a phrofi datrysiadau newydd, fel adeiladwr menter sy'n cefnogi busnesau newydd a chyfnod cynnar, un fel lluniwr systemau gan greu'r amodau ar gyfer arloesi. Gan harneisio manwl gywirdeb gwyddoniaeth a chreadigedd dylunio, rydym yn gweithio'n ddiflino i newid miliynau o fywydau er gwell.

Dewch i wybod mwy yn nesta.org.uk

Os hoffech gael y cyhoeddiad hwn mewn fformat arall megis Braille neu brint bras, cysylltwch â ni yn: information@nesta.org.uk

Awduron
Ellie Bristow, Lizzie Ingram and Chloe Carrick

Cliciwch ar logo **Nesta** ar unrhyw dudalen i ddychwelyd i'r cynnwys

Cynnwys

Crynodeb gweithredol **3**

Ein canfyddiadau allweddol 4

Ein hargymhellion 5

Cyflwyniad **6**

Pam mae'r blynyddoedd cynnar mor bwysig? **8**

Beth wnaethom ni? **10**

Pam mae ansawdd gofal plant yn bwysig? Datblygiad gwahaniaethol yn ôl oedran a gwahaniaethau ansawdd: crynodeb o'r deunydd darllen **11**

Pwysigrwydd ansawdd gofal plant ar draws ystodau oedran 11

Y risgiau o ehangu cyflym 13

Darpariaeth gofal plant gyfredol yng Nghymru **16**

Argaeledd lleoedd ar hyn o bryd 16

Ansawdd y ddarpariaeth bresennol 17

Amrywiaeth graddau ar draws awdurdodau lleol 21

Argaeledd gofal plant a lefelau amddifadedd 24

Ehangu gofal plant: Rhagamcanion ar gyfer argaeledd ac ansawdd o dan y cynnig a ariennir yn gyffredinol **25**

Argaeledd lleoedd gofal plant ar draws senarios manteisio 26

Argaeledd lleoedd â gradd uchel ar draws senarios manteisio 31

Camau nesaf ac argymhellion **34**

Trefnu'r ehangu yn ôl ansawdd ac oedran 34

Argymhellion cefnogol 35

Atodiad **38**

Atodiad A: Methodoleg adolygu tystiolaeth 38

Atodiad B: dadansoddiadau disgrifiadol a meintiol o argaeledd gofal plant yng Nghymru ar hyn o bryd ac yn y dyfodol 39

Crynodeb gweithredol

Mae cynllun Llywodraeth Cymru i ehangu gofal plant a ariennir i 20 awr yr wythnos i blant rhwng naw mis a phedair oed yn gyfle arwyddocaol i wella canlyniadau i blant difreintiedig, lleddfu costau cartrefi, a chefnogi cyflogaeth rhieni. Mae Nesta wedi rhagweld faint o ofal plant sydd ar gael yng Nghymru ar hyn o bryd a sut y gallai'r argaeledd hwnnw newid o dan sawl senario ehangu, gan ddefnyddio dull modelu newydd. Rydym hefyd wedi adolygu tystiolaeth o'r Deyrnas Unedig ac yn rhyngwladol i ddeall sut y gallai ehangu gofal plant effeithio ar blant a theuluoedd yng Nghymru.

Mae ein tystiolaeth yn awgrymu bod llwyddiant ehangu gofal plant yn ei gwneud yn ofynnol i Lywodraeth Cymru flaenoriaethu cyflwyno darpariaeth o ansawdd uchel ar gyfer y garfan graidd 2-4 oed, cyn ehangu i oedrannau iau.

Ar hyn o bryd, mae gofal plant a ariennir yng Nghymru yn gweithredu trwy ddwy brif ffrwd a ddatblygwyd o dan Lywodraeth flaenorol Cymru, gyda chymhwysedd gwahanol.

- Mae Dechrau'n Deg (sydd i gael ei ail-frandio, fel y cyhoeddwyd yn ddiweddar) yn darparu 12.5 awr o ofal plant wedi'i ariannu yr wythnos dros 39 wythnos i blant dwy, tair a phedair oed mewn cymunedau difreintiedig. Addawodd Llywodraeth flaenorol Cymru ehangu hyn yn gynnig cyffredinol i bob plentyn dwy oed waeth beth fo'u cod post, ond nid yw'r ehangu hwn wedi'i gwblhau eto.
- Mae Cynnig Gofal Plant Cymru yn darparu hyd at 30 awr yr wythnos o addysg feithrin wedi'i gyfuno â gofal plant wedi'i ariannu am hyd at 48 wythnos y flwyddyn i rieni neu ofalwyr sydd ag incwm gros o dan £100,000, sydd wedi cofrestru mewn addysg uwch/bellach neu sy'n gweithio ac yn ennill o leiaf yr hyn sy'n cyfateb i 16 awr yr wythnos ar yr isafswm cyflog cenedlaethol neu'r cyflog byw.

Ein canfyddiadau allweddol

- Amcangyfrifir bod gan 65% o blant cymwys rhwng dwy a phedair oed fynediad at le gofal plant ar hyn o bryd, ac amcangyfrifir mai dim ond 34% sydd â mynediad at un sydd wedi'i raddio'n uchel yn ôl Arolygiaeth Gofal Cymru.

- Nid yw'r diffyg hwn wedi'i ledaenu'n gyfartal: ar draws awdurdodau lleol, mae argaeledd lleoedd cyffredinol yn amrywio o 96% i ddim ond 41% ymhlith plant sy'n gymwys ar gyfer y cynigion presennol. Ar gyfer argaeledd lleoedd â sgôr uchel, mae'r ystod hon yn 54% i 24% (a gall fod mor isel â 0% ar lefel Ardal Gynnyrch Ehangach Haen Is (LSOA)). Dim ond pum awdurdod lleol sy'n cyfrif am oddeutu 50% o'r galw posibl heb ei ddiwallu.

- Fe wnaethon ni fodelu sut y gallai argaeledd presennol ddiwallu'r galw yn y dyfodol o dan bedwar senario manteisio gwahanol: galw cyfredol, cynnydd o 10%, y nifer sy'n manteisio ar Dechrau'n Deg ar hyn o bryd a faint sy'n manteisio'n gyffredinol.

- Mae ymestyn cymhwysedd a ariennir yn gyffredinol i blant dwy i bedair oed yn lleihau'r diffyg lleoedd presennol ychydig ar draws y rhan fwyaf o senarios trwy gael gwared ar ffiniau cod post presennol Dechrau'n Deg. Mae datgloi'r capasiti hwn, nad oedd yn cael ei ddefnyddio'n llawn o'r blaen, yn lleihau'r diffyg cenedlaethol o 26,300 o leoedd heddiw i lawr i 23,700 gyda chyfradd manteisio o 86% (lefel Dechrau'n Deg ar hyn o bryd). Mae patrwm tebyg yn dod i'r amlwg ar gyfer lleoedd sydd wedi'u graddio'n uchel, gan ddangos bod darpariaeth gyffredinol yn gwella effeithlonrwydd systemig ar gyfer capasiti cyffredinol a gofal o ansawdd uchel.

- Fodd bynnag, mae ymestyn y polisi i blant un oed yn debygol o leihau argaeledd unrhyw le gofal plant a lleoedd â sgôr uchel o'i gymharu â'r argaeledd presennol. Gyda chyfradd manteisio wedi'i modelu o 86%, mae argaeledd lleoedd a lleoedd â sgôr uchel yn benodol yn gostwng i 57% a 31%, yn y drefn honno (o'u cymharu â 65% a 34% heddiw).

- Gan edrych y tu hwnt i'r modelu, mae'r dystiolaeth ddatblygiadol ar gyfer plant dan 2 oed yn gymhleth, ond yn fras mae'n tynnu sylw at bwysigrwydd

cysondeb, bod yn ymatebol ac ansawdd gofal ar gyfer datblygiad. Mae hyn yn hanfodol gan fod tystiolaeth ryngwladol yn dangos y gall ehangu cynigion gofal plant yn rhy gyflym beryglu ansawdd, gydag effeithiau parhaol ar ganlyniadau plant.

Ein hargymhellion

- Ein hargymhelliad canolog yw trefnu'r ehangu yn ôl oedran a blaenoriaethu ansawdd. Dylai Llywodraeth Cymru flaenoriaethu ehangu darpariaeth o ansawdd uchel i bob plentyn dwy i bedair oed a gwrthsefyll cyflwyno'r ddarpariaeth ar garlam i blant o dan ddwy oed nes bod trothwyon clir o ran ansawdd a chapasiti yn cael eu bodloni.
- Cau mannau dall data wrth fonitro ansawdd, gan gynnwys gwerthuso'r 26% o leoliadau sydd heb eu graddio ar hyn o bryd ac archwilio dulliau ysgafnach i asesu ansawdd rheng flaen yn barhaus, yn hytrach na dibynnu'n llwyr ar arolygiadau ffurfiol anaml.
- Targedu buddsoddiad cyfalaf ar lefel yr awdurdod lleol a'r gymdogaeth. Dylid pwysoli buddsoddiad yn ôl amddifadedd a dwysedd poblogaeth o fewn awdurdodau wedi'u targedu, nid ei ddyrannu yn ôl cyfansymiau ledled yr awdurdodau yn unig, a'i gyfeirio i ddarparu amgylcheddau ysgogol o ansawdd da i bob oed.
- Buddsoddi yn y gweithlu ac arweinyddiaeth, gan dargedu'n benodol gefnogaeth i arweinyddiaeth a rheolaeth, trothwyon cymwysterau uwch ar gyfer arweinwyr ystafelloedd babanod a buddsoddiad gwirioneddol yng nghyflog, ymreolaeth a statws proffesiynol y gweithlu presennol.
- Cryfhau'r sector gwarchodwyr plant fel blaenoriaeth benodol, o ystyried ei addasrwydd posibl ar gyfer plant iau ac ardaloedd mwy gwledig, yn ogystal â'r dirywiad mewn lleoliadau dan arweiniad gwarchodwyr plant a welir flwyddyn ar ôl blwyddyn yng Nghymru.

Cyflwyniad

Mae blynyddoedd cynnar bywyd plentyn yn gosod sylfeini hanfodol ar gyfer twf corfforol, emosiynol a chymdeithasol, ond mae plant sy'n profi tlodi yn llawer mwy tebygol o golli allan ar yr adnoddau a'r profiadau sydd eu hangen ar gyfer datblygiad iach. Mae'r anghydraddoldeb hwn yn lleihau eu siawns hirdymor o fyw bywydau hir, boddhaus a hapus.

Fodd bynnag, nid oes rhaid i gefndir plentyn bennu ei ddyfodol. Yn ogystal â lleihau tlodi plant, mae ffactorau amddiffynnol y gellir eu cryfhau y tu mewn a'r tu allan i'r teulu – yn enwedig drwy fynediad at leoliadau gofal plant cynnar o ansawdd uchel – rhoi cyfle i bob plentyn ffynnu.

Mae cynllun Llywodraeth Cymru i ehangu gofal plant a ariennir i 20 awr yr wythnos i blant rhwng naw mis a phedair oed yn cynnig cyfle sylweddol i weithredu ar hyn: gan roi dechrau gwell mewn bywyd i blant difreintiedig, gostwng biliau aelwydydd, a helpu rhieni i ddychwelyd i'r gwaith. Ond er mwyn sicrhau bod buddsoddi mewn gofal plant cynnar yng Nghymru yn arwain at fwy o blant o gefndiroedd difreintiedig yn cyflawni eu potensial yn llawn, bydd angen i Lywodraeth Cymru sicrhau bod ansawdd yn mynd law yn llaw â chyflymder a graddfa'r ehangu.

Mae'r adroddiad hwn yn dangos pam mae sicrhau bod ehangu gofal plant yn iawn ar gyfer babanod, plant a theuluoedd yng Nghymru mor bwysig. Yn y ddogfen hon, rydym yn:

- syntheseiddio tystiolaeth o'r Deyrnas Unedig ac yn rhyngwladol i archwilio'r anghenion datblygiadol penodol ar draws gwahanol garfannau oedran
- dadansoddi gwaelodlin bresennol y ddarpariaeth gofal plant yng Nghymru i ddeall goblygiadau'r capasiti presennol ar yr ehangu gofal plant arfaethedig
- cyflwyno rhagamcanion wedi'u modelu ar draws pedwar senario manteisio gwahanol, er mwyn deall argaeledd unrhyw fath o le ac argaeledd lleoedd â sgôr uchel yn benodol

Mae Nesta yn cyflwyno'r mewnwelediadau hyn er mwyn cefnogi Llywodraeth Cymru, awdurdodau lleol, a phartneriaid yn y sector wrth ystyried sut i adeiladu system gofal plant deg a chynaliadwy sy'n seiliedig ar wyddor datblygiad a sefydlogrwydd gweithredol.

Pam mae'r blynyddoedd cynnar mor bwysig?

Mae pum mlynedd gyntaf bywyd yn sefydlu'r sylfeini niwrolegol, corfforol a chymdeithasol-emosiynol sylfaenol ar gyfer lles gydol oes. Fodd bynnag, mae plant sy'n tyfu i fyny mewn tlodi yn fwy tebygol o golli'r adnoddau a'r profiadau sydd eu hangen ar gyfer datblygiad iach. Ar hyn o bryd, mae 40% o blant dan bump oed yng Nghymru yn byw mewn tlodi incwm cymharol – y gyfradd uchaf ymhlith holl genhedloedd y Deyrnas Unedig (JRF, 2025).

Er bod gwariant cyhoeddus yn aml yn canolbwyntio ar ymyriadau oedran ysgol, mae tystiolaeth niwroddatblygiadol yn dangos bod 90% o dwf ymennydd oedolion yn digwydd cyn chwech oed (Brown a Jernigan, 2013). At hynny, dengys ymchwil James Heckman, enillydd Gwobr Noebl, bod rhaglen addysg gynnar yn yr Unol Daleithiau wedi creu buddion o 7-10% y flwyddyn, trwy ganlyniadau gwell a llai o angen am addysg arbennig, gofal iechyd a gwasanaethau cyfiawnder troseddol. Mae diweddariadau i'r ymchwil yn dangos bod pob $1 a fuddsoddir yn cynhyrchu tua $13.50 mewn buddion hirdymor dros 60 mlynedd.

Mae data cyrhaeddiad cenedlaethol yn profi bod anghydraddoldebau addysgol yng Nghymru yn gwreiddio ymhell cyn i blant gamu i mewn i ystafell ddosbarth. Yn ôl data asesiadau personol Cymru, mae'r bwlch cyrhaeddiad economaidd-gymdeithasol rhwng disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim (FSM) a'u cyfoedion nad ydynt yn gymwys i gael FSM erbyn Blwyddyn 6 yn cyrraedd:

- 23 mis mewn rhifedd gweithdrefnol
- 26 mis mewn darllen Saesneg
- 28 mis mewn rhifedd rhesymu
- 31 mis mewn darllen Cymraeg

Mae'r anghydraddoldeb hwn yn ehangu ymhellach i 30–45 mis yn yr ysgol uwchradd. Ni all ymyriadau yn yr ysgol ar eu pen eu hunain wneud yn iawn am y gwahaniaeth datblygiadol dwy i dair blynedd sy'n tarddu yn ystod plentyndod cynnar. Gallai cynllun Llywodraeth Cymru sydd ar ddod, Llythrennedd a Rhifedd Sylfaenol i blant 0-16 oed gynnig cyfrwng allweddol i fynd i'r afael â'r heriau hyn, ond er mwyn cyflawni uchelgeisiau cyrhaeddiad cenedlaethol, rhaid i bolisi ymyrryd yn ystod y cyfnod sylfaenol 0-i-5 oed i atal y bylchau hyn rhag gwreiddio.

Beth wnaethom ni?

Mae'r adroddiad hwn yn tynnu ar dri llinyn gwaith cysylltiedig: arolwg o dystiolaeth yn y Deyrnas Unedig ac yn rhyngwladol, dadansoddiad disgrifiadol o'r ddarpariaeth gofal plant bresennol yng Nghymru, a rhagamcan wedi'i fodelu o sut y gallai mynediad ac ansawdd newid o dan wahanol senarios ehangu.

Ar gyfer yr arolwg tystiolaeth, fe wnaethom syntheseiddio dogfennau am y rhwystrau sy'n wynebu teuluoedd incwm isel wrth gael mynediad at ofal plant, effeithiau datblygiadol fesul grŵp oedran, ac effeithiau darpariaeth gyffredinol ar y farchnad lafur, gan dynnu ar dystiolaeth o Gymru, Lloegr a'r Alban, a systemau rhyngwladol cymharol gan gynnwys Quebec yng Nghanada, gwledydd Nordig, Estonia a'r Eidal. Mae'r cwmpas llawn a'r cwestiynau ymchwil wedi'u nodi yn yr Atodiad.

Ar gyfer y dadansoddiad disgrifiadol, fe wnaethom ddefnyddio data gan Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) i fapio nifer, math, lleoliad, a sgôr ansawdd lleoliadau gofal plant ledled Cymru. Ar gyfer y dadansoddiadau modelu, fe wnaethom ddefnyddio data AGC, y Swyddfa Ystadegau Gwladol (ONS), Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru a data Plant mewn teuluoedd incwm isel (CiLIF) i fapio argaeledd presennol gofal plant a'i ansawdd gan ddefnyddio efelychiad Monte Carlo. Yna fe wnaethom fodelu mynediad posibl yn y dyfodol at leoedd gofal plant o dan bedwar senario manteisio. Gwnaethom ddiffinio 'argaeledd' fel cyfran y plant sydd â lle gofal plant y gellir ei gyrraedd o fewn 25 munud ar gludiant cyhoeddus, 15 munud o gerdded, neu 15 munud o yrru, gan ddilyn methodoleg Estyn ac arweiniad Dechrau'n Deg.

Oherwydd cyfyngiadau data, mae ein modelu wedi'i gyfyngu i blant 1-4 oed ac mae'n eithrio plant 9 i 11 mis oed a fyddai'n gymwys yn y pen draw o dan yr ehangu llawn arfaethedig. Mae'r boblogaeth 1-4 a ddefnyddir hefyd yn cynnwys rhai plant a fydd eisoes wedi dechrau yn y dosbarth derbyn. Gall y ddau fater hyn wrthbwyso ei gilydd yn rhannol.

Mae ffynonellau data llawn, methodoleg modelu, a chyfyngiadau wedi'u nodi yn yr Atodiad.

Pam mae ansawdd gofal plant yn bwysig? Datblygiad gwahaniaethol yn ôl oedran a gwahaniaethau ansawdd: crynodeb o'r deunydd darllen

Mae gofal plant wedi'i ariannu yn llawer mwy na pholisi addysg gynnar: mae'n rhaff achub gymdeithasol ac economaidd hanfodol i deuluoedd. Gall darpariaeth hygyrch a fforddiadwy chwarae rôl drawsnewidiol wrth alluogi rhieni a gofalwyr – yn enwedig mamau – i ddychwelyd i'r gwaith, derbyn hyfforddiant, a chyflawni sefydlogrwydd ariannol hirdymor. Yng nghyd-destun argyfwng costau byw parhaus, mae lleihau treuliau gofal plant aelwydydd yn darparu rhyddhad hanfodol ar unwaith i gyllidebau teuluoedd. Mae rhieni a gofalwyr yn haeddu cael gwneud y dewisiadau gofal plant sy'n iawn iddyn nhw gyda hyder llwyr, gan wybod, waeth beth fo oedran neu god post eu plentyn, fod pob lleoliad yn darparu amgylchedd diogel, meithringar ac o ansawdd uchel.

Mae'r drafodaeth o'r risgiau datblygiadol a gyflwynir isod yn tynnu sylw at risgiau gwirioneddol, ond risgiau y gellir eu rheoli gyda'r dyluniad polisi cywir. Mae gwneud hyn yn iawn yn gyfle hollbwysig i adeiladu system lle mae gan bob teulu fynediad at ofal plant sy'n cefnogi twf eu plentyn yn weithredol – ac mae'r canlyniad cadarnhaol hwnnw'n dibynnu ar Lywodraeth Cymru yn trin y risgiau hyn yr un mor ddifrifol ag y mae'n trin cyflawni'r ehangu ar raddfa ac yn gyflym.

Pwysigrwydd ansawdd gofal plant ar draws ystodau oedran

Mae corff sylweddol o ymchwil ryngwladol ac o'r Deyrnas Unedig yn dangos bod gofal plant ac addysg cynnar o ansawdd uchel yn darparu buddion tymor byr a hirdymor dwys i blant, yn enwedig y rhai o gefndiroedd difreintiedig. Fodd bynnag, fel y trafodwyd isod, mae gwyddor datblygiad yn dangos bod anghenion baban dan ddwy oed yn sylfaenol wahanol i anghenion plentyn bach tair oed. Gall cymhwyso modelau gofal plant a gynlluniwyd ar gyfer plant hŷn i fabanod fod yn anaddas o ran datblygiad neu hyd yn oed yn wrthgynhyrchiol.

I blant cyn-ysgol tair a phedair oed, mae'r dystiolaeth sy'n cefnogi addysg gynnar o ansawdd uchel yn glir ac yn gyson. Mae ymchwil hydredol y Deyrnas Unedig, megis Addysg Cyn-ysgol, Cynradd ac Uwchradd Effeithiol, yn cadarnhau bod gofal o ansawdd uchel yn darparu manteision gwybyddol a chymdeithasol-emosiynol parhaol. Mae'r enillion hyn yn arbennig o amlwg i blant o gartrefi incwm isel, sy'n elwa'n sylweddol o ysgogiad datblygiadol strwythuredig a throchi iaith. I'w nodi, mae tystiolaeth yn dangos bod lleoliadau meithrin a gynhelir ac a ariennir gan y wladwriaeth yn aml yn cynnig buddion gwybyddol penodol o'u cymharu â lleoliadau preifat, gwirfoddol ac annibynnol (PVI) oherwydd lefelau cymwysterau staff cyfartalog uwch.

Ar gyfer plant bach dwy i dair oed, dangosodd arolwg systematig a meta-ddadansoddiad Ewropeaidd 2023 fod dechrau gofal plant/addysg gynnar ffurfiol yn arwain at welliannau gwybyddol ac ieithyddol sylweddol i blant difreintiedig o'u cymharu â chyfoedion sy'n derbyn gofal gartref yn unig. Fodd bynnag, mae'r dystiolaeth hefyd yn datgelu bod y buddion datblygiadol hyn yn diflannu'n llwyr mewn lleoliadau o ansawdd isel. Mae amgylcheddau o ansawdd isel, a nodweddir gan staff heb gymwysterau digonol a throsiant uchel, yn methu â darparu'r cyfoethogiad gwybyddol sydd ei angen i gefnogi dysgu yn yr oed hwn.

Ar gyfer babanod dan ddwy oed, mae'r dystiolaeth niwroddatblygiadol yn gymysg ac yn amrywiol, ond mae'n dangos yn glir bod iechyd plant dan 2 oed yn dibynnu ar ryngweithio sefydlog, straen isel, ac ymatebol iawn. Yna mae tystiolaeth yn tynnu sylw at effaith drothwy ar gyfer effaith addysg gynnar ar ddeilliannau plant: mae defnydd cymedrol yn ymddangos yn ddiogel ar y cyfan neu hyd yn oed yn fuddiol, gydag oriau hir iawn yn gallu bod yn beryglus, ac mae rhai astudiaethau'n codi pryderon ynghylch gofal grŵp ar raddfa fawr ar gyfer y grŵp oedran hwn cyn i system aeddfedu'n strwythurol.

- Canfu astudiaeth yn Lloegr o Addysg a Datblygiad Cynnar (SEED) bod dechrau gofal ffurfiol yn ddwy oed neu cyn hynny o fudd i blant—yn enwedig y rhai o gefndiroedd difreintiedig—ar yr amod bod presenoldeb yn parhau i fod o dan 20 awr yr wythnos. Roedd gweithio mwy na 20 awr yr wythnos yn gysylltiedig â risgiau posibl ar gyfer datblygiad cymdeithasol-emosiynol. Yn hollbwysig, er bod ymchwil gynharach yn cysylltu gofal grŵp helaeth o dan ddwy oed â mwy o ymddygiad gwrthgymdeithasol, mae ymchwilwyr bellach

yn cydnabod bod y risg hon yn cael ei gyrru gan ansawdd isel y lleoliad yn hytrach na gofal grŵp ei hun.

- Canfu Astudiaeth EPPE (Lloegr) bod gofal grŵp helaeth cyn dwy oed - yn fwy na 2,000 awr, neu bresenoldeb llawn amser yn fras - yn cynhyrchu canlyniadau ymddygiadol gwahanol, ar y cyd erbyn pump oed. Wedi'u gwerthuso ar raddfeydd datblygiadol ar wahân, roedd y plant hyn yn arddangos lefelau uwch o ymddygiad pro-gymdeithasol (fel rhannu, helpu, empathi a chydweithredu) ochr yn ochr â risg ychydig yn uwch o ymddygiad gwrthgymdeithasol (megis ymddygiad ymosodol a tharfu).
- Gwnaeth Fort et al. 2020 (Yr Eidal) gysylltu pob mis ychwanegol a dreuliwyd mewn gofal dydd grŵp ffurfiol rhwng sero a dwy oed â gostyngiadau bach mewn IQ yn ddiweddarach yn ystod plentyndod, ond nodwyd yr effaith hon yn benodol ar gyfer merched ac roedd yn fwy ac yn fwy arwyddocaol mewn teuluoedd cyfoethog.

Y risgiau o ehangu cyflym

Mae profiad hanesyddol Quebec, Canada, yn rhybudd cymhellol i lunwyr polisi. Ym 1997, cyflwynodd Quebec bolisi gofal plant cyffredinol (a oedd ar agor yn y pen draw i bob oedran hyd at oedran sero) gan gynyddu'r ddarpariaeth yn gyflym ar draws y dalaith. Fodd bynnag, roedd cyflymder y cyflwyno yn fwy na nifer yr addysgwyr cymwys (Kottlenberg a Lehrer, 2017). Datgelodd gwerthusiadau hirdymor fod plant a oedd yn rhan o'r ehangu cyflym o ansawdd is hwn wedi profi cyfraddau uwch o anawsterau emosiynol, mwy o broblemau ymddygiad, a chanlyniadau iechyd gwaeth yn parhau pan yn oedolion (Baker et al., 2008; Baker et al., 2019). Mae Quebec yn dangos bod ehangu gofal plant yn llwyddo i ysgogi cyfranogiad y gweithlu, ond y gall blaenoriaethu ehangu cyflym dros ansawdd gwarantedig beryglu datblygiad plant.

Yn hytrach na gweld y canfyddiadau hyn fel rhwystr i ehangu, dylai llunwyr polisi eu gweld fel risgiau y gellir eu lliniaru drwy ddylunio polisïau rhagweithiol. Gall Llywodraeth Cymru liniaru'r risgiau hyn yn uniongyrchol drwy ymgorffori datrysiadau strwythurol wedi'u targedu yn y rhaglen gyflwyno gyffredinol. Mae mesurau allweddol yn cynnwys cynnal cymhareb isel o staff i blant mewn ystafelloedd

babanod; llunio gweithlu cymwys dros ben a gaiff ei werthfawrogi'n gyffredinol, ond yn benodol o fewn ystafelloedd babanod, gan ehangu cefnogaeth i'r sector gwarchod plant yn y cartref a chynnal cyfathrebu clir a thryloyw â theuluoedd. Mae gwarchodwyr plant yn gweithredu mewn amgylcheddau cartref ar raddfa fach, gyda chymhareb isel, ac yn cynnig gofalwr cyfarwydd sengl. Felly, efallai eu bod mewn gwell sefyllfa i ddarparu'r lleoliadau ymlyniad meithringar, straen isel a sefydlog y mae eu hangen ar fabanod, ac maent yn arbennig o addas ar gyfer anghenion plant iau am berthnasoedd sefydlog ac ymatebol.

Drwy ymgorffori'r mesurau diogelwch ansawdd hyn yn sylfaen yr ehangu, gall Cymru ddarparu system sy'n grymuso rhieni a gofalwyr sy'n gweithio ar yr un pryd, ac yn rhoi'r dechrau gorau posibl mewn bywyd i bob plentyn.

Diffinio gofal plant o ansawdd uchel yng Nghymru

Er mwyn sicrhau bod rhaglen ehangu gofal plant Cymru o fudd i blant, mae angen diffiniadau clir, cenedlaethol a rennir ar gyfer gofal plant o ansawdd uchel sydd wedi'u teilwra'n benodol i bob grŵp oedran. Tybiaeth gyffredin yw bod Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) eisoes yn cyflawni'r rôl hon. Fodd bynnag, mae AGC yn gweithredu fel arolygiaeth reoleiddiol, gan sicrhau bod lleoliadau'n cydymffurfio â'r Gofynion Cenedlaethol Gofynnol ar gyfer hanfodion diogelwch, diogelu, a gofal sylfaenol. Yr hyn *nad* yw AGC yn ei wneud yw diffinio, mesur, neu archwilio arfer datblygiadol neu ragoriaeth addysgeg sy'n gwahaniaethu yn ôl oedran. Gan fod hanfodion diogelwch rheoleiddiol yn hollol wahanol i ofal datblygiadol o ansawdd uchel, mae sefydlu'r meincnodau penodol hyn yn parhau i fod yn hanfodol er mwyn rhoi hyder i rieni a gofalwyr a dal y llywodraeth a darparwyr yn atebol i safonau clir.

Mae cyflawni'r safon hon yn gofyn am ddeall bod ansawdd lleoliad yn cynnwys dau ddimensiwn gwahanol ond rhyngddibynnol iawn: ansawdd strwythurol ac ansawdd prosesau.

- Mae ansawdd strwythurol yn cyfeirio at y mewnbynnau pendant, y gellir eu rheoli gan bolisi o fewn lleoliad blynyddoedd cynnar, gan gynnwys lefelau cymwysterau staff, hyfforddiant arbenigol, cymhareb staff-i-blant, a chyfraddau cadw gweithlu.

- Mae ansawdd prosesau yn cynnwys profiad uniongyrchol, byw'r plentyn, gan gwmpasu cynhesrwydd, cysondeb emosiynol ac ymatebolrwydd eu rhyngweithiadau gydag addysgwyr, yn ogystal â'u lles emosiynol cyffredinol.

Mae elfennau strwythurol yn gwasanaethu fel y galluogwyr hanfodol ar gyfer ansawdd prosesau. Mae addysgwyr cymwys iawn sy'n gweithio o fewn cymhareb staff-i-blant isel yn fwy tebygol o feddu ar y gallu addysgeg a'r ddealltwriaeth emosiynol sydd eu hangen i gyflawni cyd-reoleiddio cynaliadwy a meithringar. Er taw ansawdd y broses yw'r rhagfynegydd cryfaf yn y pen draw o ganlyniadau cadarnhaol i blant, ni all fodoli heb y sylfeini strwythurol cryf hyn.

Ar hyn o bryd, nid oes gan Gymru ddiffiniad sectoraidd cyffredin o ansawdd na fframwaith arolygu a gynlluniwyd i fesur y dimensiynau deuol hyn yn effeithiol. Mae sgoriau arolygu presennol AGC yn gwerthuso cydymffurfiaeth reoleiddiol yn hytrach nag ansawdd prosesau sy'n gwahaniaethu yn ôl oedran ar y rheng flaen. Mae gwaethygu'r bwlch hwn yn rhoi straen difrifol ar sylfeini strwythurol ar draws sector y blynyddoedd cynnar yng Nghymru, wedi'i ysgogi gan gyflog isel, trosiant staff uchel, a gweithlu gwarchodwyr plant sy'n gyson leihau. Heb sefydlu metrigau clir a chefnogaeth ar gyfer ansawdd strwythurol a phrosesau, mae ehangu cenedlaethol cyflym yn peryglu creu lleoedd gofal plant ffisegol sydd heb y sefydlogrwydd a'r safonau sydd eu hangen i gefnogi datblygiad plant a lleihau anfantais rhyng-genhedlaethol.

Darpariaeth gofal plant gyfredol yng Nghymru


Yn yr adran hon o'r adroddiad, rydym yn cyflwyno ein canfyddiadau sy'n mapio argaeledd presennol gofal plant a'i ansawdd yng Nghymru. Cyn archwilio'r canfyddiadau hyn, mae'n hanfodol pwysleisio, er bod data meintiol yn darparu lens dadansoddol hanfodol, na all gyflwyno realiti cyfan, manwl darpariaeth blynyddoedd cynnar rheng flaen. Nid yw'r canfyddiadau a nodir isod wedi'u bwriadu i feirniadu na beio lleoliadau gofal plant gweithgar, ymarferwyr ymroddedig, na thimau cyflwyno awdurdodau lleol sy'n gweithredu o dan gyfyngiadau strwythurol difrifol. Yn hytrach, mae'r mapio hwn yn ceisio sefydlu trosolwg gwrthrychol, a rennir o'r llinell sylfaen gyfredol yng Nghymru heddiw – gan nodi patrymau systemig ac anghydraddoldebau rhanbarthol fel y gellir targedu polisi, cyllid seilwaith a chymorth sector yn y dyfodol lle mae eu hangen fwyaf.

Argaeledd lleoedd ar hyn o bryd

Mae modelu Nesta yn datgelu diffyg critigol yn y gofal plant sydd ar gael ar hyn o bryd ledled Cymru, gan mai dim ond i 65% o'r plant cymwys (h.y., plant sy'n bodloni meini prawf presennol Dechrau'n Deg neu Gynnig Gofal Plant Cymru) y mae lleoedd ar gael. Mae'r diffyg capasiti hwn yn gadael tua 26,300 o blant cymwys heb le gofal plant ar gael yn y system bresennol.

Mae'r bwlch yn y ddarpariaeth bresennol yn cael ei ddylanwadu'n fawr gan leoliad, yn amrywio o ddarpariaeth bron yn llwyr i brinder difrifol. Er enghraifft, mae lleoedd gofal plant ar gael i 96% o'r boblogaeth gymwys yn Ynys Môn, ond dim ond 41% o'r boblogaeth gymwys ym Merthyr Tudful. Mae Ffigwr 1 isod yn dangos amrywiad sylweddol yn y lleoedd gofal plant sydd ar gael ar draws awdurdodau lleol Cymru.

Ffigwr 1: Map yn dangos argaeledd lleoedd i blant sy'n gymwys ar hyn o bryd ar gyfer Dechrau'n Deg a Chynnig Gofal Plant Cymru, fesul awdurdod lleol



Mae'r canfyddiadau llinell sylfaen hyn yn datgelu nad yw Llywodraeth Cymru o bosibl yn lansio ei rhaglen ehangu o sylfaen sefydlog, hyd yn oed mewn ardaloedd lle mae argaeledd lleoedd cyffredinol yn uchel.

Ansawdd y ddarpariaeth bresennol

Fel y trafodwyd uchod, mae manteision datblygiadol chwarae, dysgu a gofal plentyndod cynnar yn ddibynnol iawn ar ansawdd y lleoliad. Ar hyn o bryd mae gan Gymru tua 2,700 o leoliadau gofal plant, sy'n cynnwys tua 62% o ganolfannau gofal dydd a 38% o warchodwyr plant. Er bod gwarchodwyr plant yn cyfrif am dros


draean y lleoliadau, dim ond 12% o leoedd gofal plant Cymru maen nhw'n eu darparu, sy'n adlewyrchu eu maint llawer llai. Mae AGC yn graddio'r darparwyr hyn (o gwael i ragorol) ar draws pedwar maes craidd:

- Lles
- Gofal a datblygiad
- Arweinyddiaeth a rheolaeth
- Yr Amgylchedd

Gan nad oes diffiniad cyffredinol o ofal plant 'o ansawdd uchel' yn bodoli, mae angen i ni fabwysiadu diffiniad dirprwyol sy'n seiliedig ar ddata go iawn. Felly, mae Nesta wedi mabwysiadu'r meini prawf canlynol ar gyfer y dadansoddiad hwn: Ystyrir bod lleoliad wedi'i 'sgorio'n uchel' os yw'n sgorio'n 'dda' neu'n 'rhagorol' ar draws pedwar parth AGC.

Gan ddefnyddio'r metrig hwn, mae ein modelu'n datgelu bod 52% o leoliadau yng Nghymru yn bodloni'r safon hon ar hyn o bryd.

Ffigwr 2: Cyfran y lleoliadau a'r lleoedd gofal dydd a gwarchodwyr plant yng Nghymru, yn ôl graddau Arolygiaeth Gofal Cymru




Yn y system bresennol, allan o gyfanswm o 73,530 o leoedd sydd ar gael yng Nghymru, mae tua 47% (34,720 o leoedd) wedi'u dosbarthu fel rhai nad ydynt wedi'u graddio'n uchel – ffigur sy'n cynnwys lleoliadau â gradd is a lleoliadau heb radd o gwbl. Mae'r patrwm yn debyg ar draws mathau o ddarparwyr: nid yw bron i 45% o leoedd gwarchodwyr plant wedi'u graddio'n uchel.

Ar hyn o bryd, nid oes gradd gan 26% o'r holl leoliadau gofal plant yng Nghymru. Gallai hyn fod yn bennaf oherwydd mai dim ond yn ystod arolygiadau llawn, cynhwysfawr y mae AGC yn dyfarnu graddau, sydd fel arfer yn digwydd chwe mis ar ôl i'r gwasanaeth ddechrau gweithredu. Mae ehangu gofal plant y llywodraeth flaenorol yn debygol o olygu bod llawer o leoliadau yn dod o dan y categori 'newydd' hwn. Fodd bynnag, roedd yn anodd egluro'r rhesymeg hon yn llwyr. Serch hynny, hyd yn oed lle mae gradd yn bodoli, mae'n asesiad ar adeg benodol o gydymffurfiaeth reoleiddiol yn hytrach na mesur parhaus o ansawdd prosesau o ddydd i ddydd, yr ydym yn gwybod sy'n ffactor hanfodol sy'n dylanwadu ar ganlyniadau plant. Mae'r ddau fwlch yn gadael llunwyr polisi gyda mannau dall o ran data hollbwysig a heb y darlun cyflawn, cyfredol o ansawdd sydd ei angen cyn yr ehangiad gofal plant cenedlaethol mawr nesaf.

Ar draws pob lleoliad gofal plant yng Nghymru, nid yw bron 10% (259 o ddarparwyr) yn cyflawni statws 'gradd uchel' oherwydd un maes sy'n tanberfformio. Arweinyddiaeth a rheolaeth yw'r unig rwystr i 188 o'r lleoliadau hyn, sy'n gyfrifol am 73% o'r holl israddio unigol.


Ffigwr 3: Cyfran y lleoliadau heb eu graddio neu sy'n derbyn graddau gwael, digonol, da neu ragorol ar draws y pedwar parth yn fframwaith Arolygiaeth Gofal Cymru



Mae rheolaeth ac arweinyddiaeth effeithiol yn hanfodol i ofal plant rheng flaen. Gall llywodraethu gwan danseilio cadw staff, goruchwylio, a sefydlogrwydd emosiynol addysgwyr – yr union alluogwyr strwythurol sydd eu hangen ar gyfer rhyngweithiadau cynnes ac ymatebol rhwng plant a gofalwyr. Gan fod y maes arweinyddiaeth a rheolaeth yn cyfrif am bron i dri chwarter o israddio lleoliadau ynysig, gall uwchsgilio arweinyddiaeth wedi'i dargedu gynrychioli mecanwaith effeithlon i godi safonau ar draws cannoedd o ddarparwyr presennol. Er mwyn diogelu canlyniadau plant nawr a thrwy gydol ehangu cenedlaethol, gallai Llywodraeth Cymru archwilio blaenoriaethu cefnogaeth bwrpasol ar gyfer arweinyddiaeth a rheolaeth, gan drawsnewid her gyfredol yn y system yn brif ysgogydd gofal o ansawdd uchel.

Amrywiaeth graddau ar draws awdurdodau lleol

Mae argaeledd lleoedd â gradd uchel o fewn lleoliadau gofal plant yn amrywiol iawn. Mae modelu Nesta yn dangos mai dim ond 34% o blant cymwys sydd â lle â gradd uchel ar gael iddynt ar hyn o bryd, sy'n golygu bod tua 49,100 o blant heb un. Mae'r map isod yn dangos pa mor isel yw'r nifer o leoedd â gradd uchel sydd ar



gael ledled Cymru.

Ffigur 4: Map yn dangos argaeledd yr holl leoedd (chwith) a lleoedd â gradd uchel (dde) i blant sy'n gymwys ar hyn o bryd ar gyfer Dechrau'n Deg a Chynnig Gofal Plant Cymru, fesul awdurdod lleol

Ar hyn o bryd, nid oes unrhyw awdurdod lleol yn darparu lleoedd â gradd uchel i fwy na 54% o blant cymwys sy'n byw yno. Er gwaethaf argaeledd isel ledled y wlad, mae lle mae plentyn yn byw yn dal i benderfynu a all gael mynediad at le sydd â gradd uchel, yn amrywio o 54% o blant cymwys ym Mhowys i ddim ond 24% ym Merthyr Tudful, fel y dangosir yn y tabl isod.


Tabl 1: Cyfran a nifer y plant sydd â lle a heb le fesul awdurdod lleol

Awdurdod lleol	Cyfran y plant sydd â lle ar gael iddynt	Nifer bras o blant heb le ar gael iddynt	Cyfran y plant sydd â lle â gradd dda ar gael iddynt	Nifer bras o blant heb le â gradd dda ar gael iddynt
Blaenau Gwent	49%	900	27%	1300
Pen-y-bont ar Ogwr	42%	2000	27%	2600
Caerffili	59%	2000	26%	3600
Caerdydd	83%	1300	45%	4200
Sir Gâr	60%	1900	30%	3300
Ceredigion	63%	600	31%	1000
Conwy	72%	700	39%	1600
Sir Ddinbych	77%	500	35%	1500
Sir y Fflint	70%	1100	39%	2300
Gwynedd	84%	400	32%	1900
Ynys Môn	96%	50	43%	900
Merthyr Tudful	41%	900	24%	1200
Sir Fynwy	70%	600	33%	1400
Castell-nedd Port Talbot	50%	1700	26%	2600
Casnewydd	53%	2100	34%	3000
Sir Benfro	63%	1100	37%	1800
Powys	84%	500	54%	1300
Rhondda Cynon Taf	54%	2800	30%	4200
Abertawe	56%	2200	32%	3400
Torfaen	56%	1100	29%	1700
Bro Morgannwg	68%	1000	35%	2100
Wrecsam	81%	700	32%	2400

Gall modelau dyrannu presennol greu anghydbwysedd daearyddol, gan adael lleoedd gofal plant yn wag mewn rhai ardaloedd gyda theuluoedd mewn mannau eraill yn wynebu prinder difrifol. Ni fydd parhau â'r un dull dyrannu a dim ond ehangu'r capasiti cyffredinol yn datrys y prinder gofal â gradd uchel. Nid oes sicrwydd y bydd y lleoedd newydd yn cael gradd uchel na'u bod yn y lleoliadau lle mae ar deuluoedd eu hangen fwyaf.

Hyd yn oed o fewn un awdurdod lleol, mae amrywiad enfawr yn argaeledd lleoedd â gradd uchel. Er enghraifft, Powys sydd â'r nifer uchaf o leoedd ar gael o unrhyw awdurdod lleol, ac eto mae argaeledd lleoedd â gradd uchel yn amrywio rhwng 0% a 100% ar lefel Ardal Gynnyrch Ehangach Haen Is (LSOA) unigol. Yn ein modelu ar gyfer ardal Powys 021C (a ddangosir ar y map isod), nid oedd gan yr un o'r 60 o blant cymwys le gofal plant â gradd uchel ar gael iddynt. Mae hyn yn cael ei yrru gan ddiffyg opsiynau lleol â gradd uchel (0% ar gael ar hyn o bryd) ynghyd â'r amseroedd teithio hir sy'n ofynnol i gyrraedd lle arall.

Ffigur 5: Map yn dangos argaeledd lleoedd â gradd uchel i blant sydd ar hyn o bryd yn gymwys ar gyfer Dechrau'n Deg a Chynnig Gofal Plant Cymru ar draws Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is Powys



Rydym wedi dewis Powys i amlygu'r anghydraddoldebau eithafol a nodwyd o fewn awdurdodau lleol. Fodd bynnag, gallwn ddarparu'r un lefel o ddata manwl ar gyfer pob awdurdod lleol arall ar gais.

Argaeledd gofal plant a lefelau amddifadedd

Mae ein modelu hefyd yn dangos taw y plant yn yr ardaloedd mwyaf difreintiedig sydd leiaf tebygol o gael lle yn gyffredinol, a lle â gradd uchel, ar gael iddynt. Ar hyn o bryd mae lleoedd gofal plant ar gael i 54% o blant yn yr LSOAs mwyaf difreintiedig, o'i gymharu â 75% yn yr LSOAs lleiaf difreintiedig, a ddiffinnir gan ddefnyddio Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (MALIC). Mae lleoedd â gradd uchel ar gael i 40% o blant yn yr LSOAs lleiaf difreintiedig, o'i gymharu â dim ond 28% yn yr LSOAs mwyaf difreintiedig.

Gan fod plant dan anfantais mewn sefyllfa i brofi'r datblygiad mwyaf sylweddol o ddarpariaeth â gradd uchel, gallai ehangu mynediad i leoliadau â gradd isel yn yr LSOAs hyn heb gefnogi codi ansawdd atgyfnerthu'r bwlch mewn canlyniadau datblygiadol, yn hytrach na'i gulhau.

Dylid nodi mai dirlawnder cyflenwad mewn ardaloedd trefol sy'n cael ei ysgogi gan ddwysedd poblogaeth yw achos mwy uniongyrchol y patrwm hwn yn ôl pob tebyg yn hytrach na'r amddifadedd ei hun; o'r holl bobl sy'n profi amddifadedd incwm yng Nghymru, mae 77% yn byw mewn ardaloedd trefol. Felly, gallai edrych ar amddifadedd heb ystyried dwysedd or-ddweud faint o'r bwlch mewn argaeledd lleoedd sy'n cael ei yrru gan amddifadedd, yn hytrach na chan ddwysedd y boblogaeth. Nid ydym wedi modelu'r rhyngweithio rhwng dwysedd ac amddifadedd i brofi hyn.

Ehangu gofal plant: Rhagamcanion ar gyfer argaeledd ac ansawdd o dan y cynnig a ariennir yn gyffredinol

Bydd cynnig cyffredinol arfaethedig Llywodraeth Cymru wedi'i ariannu yn newid tirwedd gofal plant y blynyddoedd cynnar yn sylfaenol. Rydym wedi ceisio modelu'r goblygiadau ar gyfer argaeledd gwahanol senarios galw gan ddefnyddio cyflenwad heddiw fel llinell sylfaen. Er ei bod hi'n anodd rhagweld yr union nifer a fyddai'n manteisio, rydym wedi modelu pedwar senario yn seiliedig ar wahanol dybiaethau sy'n seiliedig ar dystiolaeth.

Tabl 2: Ein pedwar senario wedi'u modelu o'r nifer posib yn manteisio ar gynnig gofal plant cyffredinol

Senario	Manteisio: 3-4 oed	Manteisio: 1-2 oed	Beth mae'r senario hwn yn ei gynrychioli
Dim newid yn y galw	43%	79%	Mae'r nifer sy'n manteisio yn parhau i fod yn gyson â'r nifer sy'n manteisio ar y cynnig gofal plant a Dechrau'n Deg presennol heddiw.
Cynnydd o 10%	53%	89%	Mae'r nifer sy'n manteisio yn codi 10 pwynt canran o'r ffigurau manteisio presennol ar draws y ddau grŵp oedran yn dilyn cael gwared ar y cyfyngiadau cymhwysedd presennol.
Lefel manteisio ar Dechrau'n Deg	86%	86%	Mae'r nifer sy'n manteisio ar hyn o bryd yn cyfateb i gyfradd manteisio Dechrau'n Deg a adroddwyd gan Lywodraeth Cymru.
Cyfranogiad llawn	100%	100%	Mae pob plentyn yng Nghymru rhwng 1 a 4 oed yn cael lle.

Mae Nesta wedi amcangyfrif graddfa'r galw ar draws pedwar senario posib, ond nid ydym yn rhoi barn ar lefel ddymunol y manteisio. Mae'r canrannau a'r rhesymeg sylfaenol ar gyfer pob model wedi'u manylu isod ac yn yr Atodiad.

Argaeledd lleoedd gofal plant ar draws senarios manteisio

Mae argaeledd lleoedd gofal plant a diffygion capasiti yn newid ar draws ein senarios manteisio yn seiliedig ar y cyflenwad cyfredol (Tabl 3).

Tabl 3: Argaeledd lleoedd a galw heb ei ddiwallu o dan ein pedwar senario

Senario	Amcangyfrif o'r lleoedd ychwanegol sydd eu hangen		Cyfanswm y plant sy'n gymwys i gael lle gofal plant		Canran y plant hyn sy'n gallu cael lle o fewn y ddarpariaeth bresennol	
	Plant 2-4 oed	Plant 1-4 oed	Plant 2-4 oed	Plant 1-4 oed	Plant 2-4 oed	Plant 1-4 oed
System bresennol (heddiw)	26,300	-	-	-	65%	-
Dim newid yn y galw	4,400	18,000	51,600	74,300	92%	76%
Cynnydd o 10%	8,900	28,000	61,100	86,600	85%	68%
Defnyddio Dechrau'n Deg	23,700	45,500	81,400	106,000	71%	57%
Manteisio'n llawn	35,000	62,100	94,600	123,300	63%	50%

Mae argaeledd cyffredinol yn datgloi rhywfaint o gapasiti sbâr mewn lleoliadau presennol

Mae cymharu'r modelu hwn yn erbyn gwaelodlin heddiw yn awgrymu y gallai dileu cyfyngiadau cod post Dechrau'n Deg, mewn egwyddor, ddatgloi rhywfaint o

gapasiti sy'n bodoli eisoes. Mae ein modelu yn awgrymu, pe bai gofal plant yn cael ei wneud yn gyffredinol i blant dwy i bedair oed yn unig, a bod y nifer sy'n manteisio ar y gofal yr un fath â'r cynnig Dechrau'n Deg presennol (86%), y byddai'r diffyg mewn argaeledd yn gostwng o 26,300 i 23,700 o leoedd. Gallai hyn fod oherwydd, yn hanesyddol, bod darpariaeth Dechrau'n Deg wedi'i chyfyngu'n llym y tu ôl i ffiniau codau post lleol iawn, gan greu senario heddiw lle mae lleoedd a ariennir yn wag neu'n cael eu tanddefnyddio y tu mewn i ardaloedd dynodedig tra bod teuluoedd sy'n byw ychydig y tu allan wedi'u heithrio. Fodd bynnag, mae hyn yn tybio mai dim ond plant dwy i bedair oed sy'n manteisio ar yr holl leoedd sydd ar gael, gan eithrio plant dan ddwy oed, ac nad yw'r galw'n codi ymhellach na lefelau presennol Dechrau'n Deg.

Mae'r diffyg lleoedd sydd ar gael i'r boblogaeth gymwys yn newid ar draws ein pedwar senario. Pe bai llai o bobl yn manteisio ar y ddarpariaeth, yn gyson â'r galw presennol am y Cynnig Gofal Plant presennol Cymru, byddai'r diffyg ar gyfer plant dwy i bedair oed yn llai fyth, gyda 4,400 o leoedd; ond os byddai'r nifer sy'n cymryd rhan yn codi hyd yn oed ychydig, i gynnydd o 10 pwynt canran ar ffigurau heddiw, byddai'r diffyg yn dringo'n ôl i 8,900, ac yn cyrraedd 35,000 ar gyfranogiad llawn (100%). Mae hyn yn awgrymu y gallai cael gwared ar gyfyngiadau cod post fod yn ffordd effeithiol o wneud defnydd gwell o'r capasiti presennol ar gyfer plant dwy i bedair oed, ond nid yw'n ddigonol ar ei ben ei hun os yw'r ehangu i gyflawni darpariaeth gyffredinol ar gyfer yr ystod oedran lawn a fwriadwyd, gan gynnwys plant hyd at naw mis oed.

Mae ehangu i blant blwydd oed yn gwaethygu'r diffyg yn sylweddol

